

Canllaw Ymgeisio i Ymgeiswyr

Gwneud cais am rôl gyda'r Groes Goch Brydeinig: Canllaw i ymgeiswyr (V2.0 Medi 2025)

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio'r unigolion mwyaf dawnus i'n helpu gyda'n cenhadaeth i symud grym dynoliaeth fel bod pobl yn gallu paratoi ar gyfer, ymateb i, ac adfer o argyfwng.

Yma fe gewch wybodaeth am y broses ymgeisio i'ch helpu i wneud cais i ddod yn rhan o'n tîm.

Ein proses ymgeisio

Recriwtio dienw

Rydym yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, a bod penderfyniadau recriwtio yn seiliedig ar feini prawf sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Rydym yn gweithredu proses ddienw lle nad yw manylion personol gan gynnwys eich enw, oedran, ethnigrwydd, crefydd, rhyw, a manylion cyswllt yn cael eu rhannu gyda'r rheolwr llogi. Unwaith y byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad, gall y rheolwr llogi weld manylion sylfaenol megis eich enw a'ch manylion cyswllt.

Ffurflen gais

Mae ein ffurflen gais ar-lein wedi'i rhannu'n bedair adran. Nid oes angen i chi gwblhau'r cais mewn un eisteddiad. Unwaith y byddwch wedi cwblhau adran gellir ei harbed. Gallwch adael y system a dychwelyd i gwblhau'r cais yn nes ymlaen. Unwaith y bydd pob adran wedi'i chwblhau, byddwch yn gallu cyflwyno'ch cais. Ar ôl cyflwyno'ch cais ni ellir ei olygu.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'ch cais neu os oes angen i chi wneud cais mewn ffordd arall, cysylltwch â'n tîm recriwtio recruitment@redcross.org.uk / 0300 004 0554.

Cam 1: Llwytho'ch CV a Datganiad Cefnogol / Cwestiynau'r Cais

Os oes gennych CV (curriculum vitae neu résumé) gallwch ei lwytho i'n system a bydd manylion eich addysg a'ch hanes gwaith yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'ch cais. Ni all y rheolwr llogi weld eich CV nes eich bod wedi'ch gwahodd i gyfweiliad, felly rydym yn argymhell eich bod yn gwirio bod y manylion wedi trosglwyddo'n gywir (yng Ngham 2) a'ch bod yn defnyddio'ch atebion i'r cwestiynau cais i ddweud wrth y rheolwr llogi pam eich bod yn addas iawn ar gyfer y rôl.

Os nad oes gennych CV neu os yw'n well gennych beidio â llwytho un, gallwch nodi gwybodaeth am eich hanes gwaith ac addysg â llaw yn y cam nesaf.

Datganiad cefnogol neu gwestiynau cais

Rydym eisiau gwybod mwy amdano'ch chi a pham eich bod yn ymgeisydd gwy'ch ar gyfer y rôl. Yn dibynnu ar y rôl rydych wedi gwneud cais amdani, byddwn naill ai'n gofyn i chi

ysgrifennu datganiad cefnogol (hyd at 900 gair) NEU ateb cwpl o gwestiynau byr (150 gair y cwestiwn). Mae'r wybodaeth a ddarparwch yn ein helpu i ddeall:

- beth wnaeth eich cymell i wneud cais am y rôl
- pam mae gennych ddiddordeb mewn gweithio i'r Groes Goch Brydeinig, a
- sut mae'ch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn cyfateb i'r disgrifiad swydd

Paratoi: rydym yn argymhell eich bod yn darllen hysbyseb y swydd a phroffil y rôl (disgrifiad swydd) yn ofalus. Talwch sylw i'r meini prawf dethol a restrir yn y proffil rôl (gwybodaeth, sgiliau a phrofiad). Dyma'r meini prawf y caiff ceisiadau eu hasesu yn eu herbyn.

Darparu enghreifftiau: yn eich datganiad cefnogol / atebion, defnyddiwch enghreifftiau clir a phenodol i ddweud wrthym sut mae'ch sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn berthnasol i'r meini prawf dethol. Nid oes angen i'ch enghreifftiau fod yn gysylltiedig â gwaith – gallwch gynnwys profiadau personol, addysg, gwirfoddoli, clybiau neu grwpiau eraill.

Osgoi gwybodaeth adnabod: er mwyn cynnal anhysbysrwydd y broses recriwtio, rydym yn argymhell nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth adnabod megis eich enw yn eich atebion.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn eich cais: rydym yn cydnabod gwerth offer AI ac yn gwybod y gallech ddewis eu defnyddio wrth baratoi eich cais am swydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y cais yn waith eich hun. Dylai'ch cais adlewyrchu eich llais, eich profiadau a'ch syniadau eich hun.

Cam 2: Hanes Cyflogaeth, Addysg, Cymwysterau ac Ieithoedd

Os gwnaethoch lwytho CV yng Ngham 1, bydd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n awtomatig. Rydym yn argymhell eich bod yn gwirio bod y manylion yn gywir.

Cam 3: Manylion Personol a'r Hawl i Weithio

Yma gallwch roi gwybod i ni os ydych yn ymgeisydd mewnol, a darparu manylion am drwyddedau gyrru, euogfarnau troseddol a'ch hawl i weithio yn y DU.

Cam 4: Cyfleoedd Cyfartal a Chyflwyno

Yn y cam olaf bydd gofyn i chi ddarparu manylion megis eich grŵp oedran, ethnigrwydd a rhywedd. Defnyddir yr wybodaeth hon ar gyfer adrodd yn unig ac nid yw'n weladwy i reolwyr llogi.

Unwaith y bydd eich cais wedi'i gyflwyno

Ar ôl cyflwyno'ch cais, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi'i dderbyn. Ar ôl y dyddiad cau, bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu yn erbyn y meini prawf dethol a bydd yr ymgeiswyr mwyaf addas yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

Cymorth a chefnogaeth

Os oes gennych ymholiad neu os oes angen cymorth arnoch i wneud cais mewn ffordd wahanol, cysylltwch â'n tîm recriwtio: recruitment@redcross.org.uk / 0300 004 0554.